# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 25 Mehefin 2024, am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Joan Butterfield, Ellie Chard, Karen Edwards, Pauline Edwards, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, James May, Terry Mendies, Merfyn Parry, Andrea Tomlin, Eryl Williams a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE); y Prif Gyfrifydd a Dirprwy Swyddog Adran 151 (RWE), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (EH), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a NPH [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd a Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim datganiadau cysylltiad.

## 3 MATERION BRYS

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn bwriadu codi'r mater brys canlynol - **Cyflwyno'r Gwasanaeth Casglu Deunyddiau Ailgylchu a Gwastraff newydd.**

Ymddiheurodd yr Arweinydd ar ran y Cyngor i breswylwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan y problemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r gwasanaeth newydd ac i aelodau sydd wedi bod yn gweithio'n galed ar ran preswylwyr. Diolchodd hefyd i aelodau am roi gwybod am gasgliadau a fethwyd yn eu wardiau ac i breswylwyr am eu hamynedd a'u hymdrechion i ailgylchu.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi bod mewn cyswllt dyddiol â'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a'r Aelod Arweiniol am y sefyllfa. Er bod y cyfraddau casglu wedi gwella, roedd yn amlwg bod angen gweld cynnydd anferthol o ran cyflymdra a gwelliant i ymdrin â'r ôl-groniad a gweithio i sicrhau bod y system yn gweithio'n iawn. Sicrhaodd yr Arweinydd ei fod ef a'r Aelod Arweiniol yn herio'r swyddogion yn drwyadl i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys cyn gynted â phosibl ac roedd pawb yn gweithio mor galed â phosibl i gael gwared ar yr ôl-groniad, ymdrin â'r problemau a sicrhau bod y system yn gweithio'n iawn yn y dyfodol. Byddai'r digwyddiadau'n ymwneud â chyflwyno'r system newydd yn destun ymchwiliad craffu cyhoeddus a byddai'r broses honno'n dechrau cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad. Roedd cyfarfod arbennig o'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi'i drefnu ar gyfer 8 Gorffennaf.

Ymddiheurodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Barry Mellor i aelodau a phreswylwyr. Ychwanegodd fod y cyflwyno wedi'i ddwyn ymlaen gan y Cabinet blaenorol, ond fel Cabinet, roeddent yn credu mai dyma'r peth iawn i'w wneud gan barhau â hynny. Pwysleisiodd y Cynghorydd Mellor mai problem weithredol ydoedd a'i fod wedi bod mewn cyswllt rheolaidd â'r swyddogion perthnasol i gyflymu'r gwelliannau. Ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, roedd wedi bod allan gyda'r criwiau i weld drosto'i hun yr anawsterau oedd yn wynebu preswylwyr a gwaith caled y criwiau, oedd yn gweithio sifftiau ychwanegol i ymdrin â'r ôl-groniad. O'r herwydd, roedd yn hyderus y byddai'r problemau'n cael eu datrys ac y byddai'r system yn cael ei hymgorffori'n llwyddiannus, er nid mor gyflym â'r hyn a ragwelwyd. Diolchodd i breswylwyr am eu hamynedd a rhoddodd sicrwydd bod popeth posibl yn cael ei wneud i wireddu manteision y system newydd mor gyflym â phosibl.

Caniataodd yr Arweinydd gwestiynau, ond atgoffodd yr aelodau bod craffu ar gyflwyno'r gwasanaeth newydd yn broses ar wahân drwy ymchwiliad dan arweiniad aelodau.

Yn ystod y drafodaeth mynegodd yr aelodau eu pryderon a'u gofidiau am y gwasanaeth newydd a'r effaith ar breswylwyr, a chafwyd nifer o enghreifftiau o broblemau mewn wardiau gwahanol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Wrth siarad ar ran y Grŵp Annibynnol, roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn dymuno diolch i'r criwiau a'r staff ar y rheng flaen oedd yn gweithio'n galed mewn amgylchiadau anodd. Roedd yn dymuno rhoi ar gofnod hefyd bod y cyn Gabinet wedi pleidleisio ar gysyniad y gwasanaeth newydd, nid y dull gweithredu. Cododd yr aelodau gwestiynau a phryderon penodol am agweddau amrywiol o gyflwyno'r gwasanaeth a methiannau allweddol a gofynnwyd am sicrwydd am y camau i ymdrin â'r ôl-groniad presennol a bod y system yn gweithio'n effeithlon yn y dyfodol, a chyflwynwyd nifer o awgrymiadau am hynny.

Ymatebodd yr Arweinydd, yr Aelod Arweiniol, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Swyddog Monitro i'r cwestiynau a materion a godwyd fel a ganlyn -

- roedd yr effaith ar y preswylwyr a effeithiwyd yn andwyol gan y newid gwasanaeth yn annerbyniol ac roedd yn wirioneddol ddrwg gan y Cyngor am y gofid a achoswyd o'r herwydd

- roedd y cyfraddau casglu yn ardaloedd gwledig y sir yn is nag yn y Gogledd, ble roedd mwyafrif y casgliadau wedi cael eu cwblhau, ac roedd adnoddau ychwanegol wedi cael eu targedu yn yr ardaloedd gwledig i ymdrin â'r broblem
- roedd uwch reolwyr, staff gweithredol a WRAP (Rhaglen Gweithredu ar Wastraff ac Adnoddau) yn cydweithio ar gamau gweithredu i ymdrin â'r problemau
- roedd adnoddau ychwanegol wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth newydd dros dro nes y bydd yn rhedeg yn llyfn
- yn ei hanfod, ymdrinnir â'r ôl-groniad drwy ddefnyddio mwy o staff a cherbydau am fwy o oriau gyda system sifftiau i wneud y mwyaf o oriau fflyd yn ystod yr wythnos a defnyddio fflyd lawn ar ddydd Sadwrn
- pan fydd yr ôl-groniad wedi'i glirio, gellid cynnal adolygiad o'r llwybrau gwahanol i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gyson yn y dyfodol
- roedd staff y Cyngor yn cael eu symud dros dro o waith arall heb fod yn gritigol ac roedd staff asiantaeth yn cael eu recriwtio yn y tymor byr. Roedd dewisiadau eraill a ystyriwyd i gynyddu capasiti dros dro yn cynnwys comisiynu cwmnïau gwastraff a chysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos eraill am gymorth
- cadarnhawyd bod faniau llai yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd gwledig i gasglu yn yr ardaloedd blaenoriaeth uchel
- credir nad oedd casgliadau gardd a fethwyd yn broblem eang a chytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ymchwilio i'r mater ac adolygu'r tanysgrifiad o bosibl, a rhoi diweddariad i'r aelodau y tu allan i'r cyfarfod
- yn y drefn flaenorol, roedd gwastraff bwyd yn cael ei gasglu ar wahân ond roedd yn cael ei gasglu gyda'r ailgylchu dan y drefn newydd
- roedd camau'n cael eu cyflwyno i ymdrin â'r ôl-groniad o wastraff bwyd ac roedd ardaloedd nad oedd wedi cael casgliad ers wythnosau yn cael eu blaenoriaethu. Roedd llwybrau'n cael eu creu i griwiau penodol mewn cerbydau llai i gasglu yn yr ardaloedd hynny
- cafwyd problemau ar hyd a lled y sir, oedd wedi ei gwneud yn anodd blaenoriaethu a thargedu adnoddau'n gywir, ac roedd angen blaenoriaethu'r aelwydydd hynny nad oedd wedi cael casgliad ers y cyfnod hiraf
- dywedodd yr Arweinydd ei fod yn cymryd cyfrifoldeb llwyr fod hyn wedi digwydd yn ystod ei gyfnod ef wrth y llyw ac nad oedd yn beio'r Cabinet blaenorol am amgylchiadau cyflwyno'r gwasanaeth newydd - roedd bellach yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r capasiti a chlirio'r ôl-groniad. Roedd y system ei hun a gytunwyd arni gan y Cabinet blaenorol a'i hetifeddu gan y Cabinet presennol yr un gywir pan fydd yn gweithio'n iawn
- roedd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd wedi bod ar y rheng flaen bob dydd ac wedi bod yn rhan o'r ddwy sesiwn briffio i aelodau; byddai hefyd ar gael i gymryd rhan yn y broses graffu sydd i ddod
- nid oedd wedi bod yn bosibl cynnal cyfarfod o'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu cyn 8 Gorffennaf oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad a bod staff cefnogi craffu'n gweithio'n llawn amser ar yr etholiad, ac roedd y cynnig ar gyfer y broses graffu wedi'i amlinellu, oedd yn arwain at ymchwiliad craffu cyhoeddus o gyflwyno'r gwasanaeth.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

**5 STRATEGAETH HINSAWDD A NATUR CYNGOR SIR DDINBYCH (2021/22 - 2029/30) - ADOLYGU AC ADNEWYDDU BLWYDDYN 3**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant Strategaeth Hinsawdd a Natur y Cyngor (2021/22 – 2029/30) (a elwid yn flaenorol yn Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) i’w hystyried.

Datganodd y Cyngor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn 2019 a mabwysiadodd Strategaeth ddrafft yn 2021, oedd angen cael ei hadolygu bob tair blynedd. Roedd y Strategaeth ddiwygiedig wedi cael ei chyflwyno ynghyd â manylion y broses adolygu ac ymgysylltu, canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen ddrafft a’r diwygiadau arfaethedig a wnaed i’r Strategaeth o ganlyniad.

Soniodd y Cynghorydd Mellor am y cynnydd da a wnaed ers mabwysiadu’r Strategaeth, ond oherwydd yr heriau ariannol oedd yn wynebu cynghorau, nid oedd y newid yn digwydd yn ddigon cyflym i fodloni targedau 2030. Ni fyddai’n hawdd bodloni’r nodau hynny yn y Strategaeth ddiwygiedig, ond roedd y Cyngor yn cadw at yr uchelgais a’r ymrwymiad honno i wneud cymaint ag y gallai mor gyflym ag y gallai gyda’r adnoddau sydd ar gael i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd ac adfer natur i genedlaethau'r dyfodol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes drosolwg o’r broses adolygu ac ymgysylltu a diolchodd i’r rhai a fu’n rhan ohoni am eu cyfraniadau. Tynnodd sylw at feysydd i’w nodi yn y Strategaeth ddiwygiedig oedd yn cynnwys tair adran newydd yn ymwneud â lleihau allyriadau a chynyddu amsugno, cynyddu gwytnwch ac adfer natur ynghyd â chyflwyno adran ar gyllid, atodiad technegol a newidiadau i broses/polisi a chamau gweithredu/diweddariadau prosiect.

Croesawodd y Cabinet y Strategaeth gan gefnogi ei gynnwys a’i uchelgais i gyflawni er mwyn cenedlaethau'r dyfodol er gwaetha’r anawsterau. Cyfeiriwyd at rôl bwysig y Cyngor fel arweinydd cymunedol a gofynnwyd a ellid gwneud mwy ar lefel gymunedol i godi ymwybyddiaeth ac ymgyrchu’n well am natur frys yr agenda hwnnw. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau fod y Strategaeth yn gonglfaen, ochr yn ochr â’r Cynllun Corfforaethol, o ran dylanwadu a gweithio gyda phartneriaid a chytunodd bod angen creu ymwybyddiaeth ymhlith pobl gyda chamau gweithredu penodol yn y Strategaeth ar gyfathrebu a newid ymddygiad, a bod adnodd pwrpasol ar gyfer hynny wrth symud ymlaen.

Cododd y Cynghorydd Rhys Thomas nifer o gwestiynau technegol gyda’r Pennaeth Gwasanaeth i gael eu trafod ymhellach y tu allan i’r cyfarfod. Gofynnodd am sicrwydd bod y Cyngor, ar y cyd â mynd i’r afael a lleihau carbon, hefyd yn gweithio tuag at weithredu mewn ffordd sy’n gadarnhaol yn ecolegol, i gynyddu nifer y rhywogaethau prin a dod â bywyd gwyllt yn ôl i Sir Ddinbych. Cadarnhaodd y

Pennaeth Gwasanaeth fod mwy o gydbwysedd yn y Strategaeth newydd rhwng gweithredu ar garbon/yr hinsawdd ac adfer natur, a soniodd am waith oedd yn cael ei wneud ar y rhaglen adfer natur. Roedd hyfforddiant wedi cael ei ddarparu'n flaenorol ar lythrennedd carbon ac roedd hyfforddiant ar y gweill yn y dyfodol ar lythrennedd ecolegol, fyddai'n rhoi gwybodaeth i'r aelodau am y ddau faes.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Strategaeth Hinsawdd a Natur (2021/22 – 2029/30) fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac yn*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.*

**6 CYNLLUN HIRDYMOR AR GYFER TREFI: Y RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y penderfyniadau dirprwyedig a'r camau a gymerwyd fel rhan o fenter Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 21 Mai 2024.

Cafodd y Cabinet wybod am y camau a gymerwyd erbyn 3 Mehefin 2024 oedd yn cynnwys penodi Adam Roche fel Cadeirydd Bwrdd Tref y Rhyl ynghyd â manylion am Strwythur y Bwrdd, y Cylch Gorchwyl, Polisi Gwrthdaro Buddiannau a'r ffurflen Ffiniau'r Dref. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU ynghlwm â'r adroddiad. Cafodd y Cabinet wybod hefyd am gamau gweithredu oedd angen eu cymryd gan y Bwrdd erbyn 1 Tachwedd 2024 oedd yn cynnwys: cytuno ar lywodraethu; cytuno ar gynllun ymgysylltu; cynnal adolygiad o'r data; cynnal ymgysylltiad cyhoeddus; datblygu'r weledigaeth 10 mlynedd a datblygu'r cynllun cyflawni ar gyfer y 3 blynedd gyntaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield gwestiynau gweithdrefnol am y broses benodi ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Tref a'i aelodaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU. Gofynnodd hefyd am i ystyriaeth gael ei roi i benodi dau Gynghorydd Tref y Rhyl ar y Bwrdd. Wrth ymateb i faterion a godwyd, a chwestiynau pellach gan aelodau, ymatebodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Barry Mellor a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi fel a ganlyn -

- ailadrodd y rhesymeg y tu ôl i ddirprwyo camau gan y Cabinet i alluogi'r tasgau gael eu cwblhau yn yr amserlen dynn i fodloni'r terfyn amser am yr arian, ac roedd yr holl fudd-ddeiliaid wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses a'r cynnydd a wnaed
- rhoddwyd eglurhad manwl am y broses drylwyr ar gyfer enwebu a phenodi Cadeirydd y Bwrdd Tref (yn cynnwys meini prawf, dethol, cyfweld, matrics sgorio a defnyddio ymgynghorydd) a rhinweddau penodi Adam Roche i'r rôl ynghyd ag aelodaeth y Bwrdd gan ystyried yr arweiniad a roddwyd o ran cynrychiolwyr statudol ac anstatudol.
- roedd yr arweiniad wedi awgrymu rhwng 12 – 15 aelod ac roedd y Bwrdd yn cynnwys 16 aelod: 5 statudol ac 11 anstatudol er mwyn cael cynrychiolaeth dda

o sectorau perthnasol. Mae’n bosibl y bydd cyfle hefyd i ffurfio is-grwpiau gyda mewnbwn ehangach gan y sectorau hynny i gyd-fynd â’r tair thema

- nid oedd gofyniad statudol i gael cynrychiolydd o Gyngor Tref y Rhyl, ond er mwyn cydnabod eu rôl bwysig, roedd Cynghorydd Tref y Rhyl wedi cael ei gynnwys ar y Bwrdd. Ystyriwyd bod y cydbwysedd rhwng cynrychiolwyr etholedig a rhai o’r gymuned, busnes a sectorau eraill yn briodol ac yn unol â’r arweiniad
- roedd sicrwydd wedi’i roi y byddai’r rhaglen yn parhau yn y dyfodol os oedd newid mewn llywodraeth ar ôl yr etholiad.

Wrth gloi, cyfeiriodd yr Arweinydd at y disgwyliad y byddai’r Bwrdd Tref yn gweithio gyda’r holl aelodau etholedig yn y Rhyl yn y dyfodol er lles y dref.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi ac yn cefnogi’r wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad hwn, ac wedi’i hatodi iddo, yn cynnwys penodiad Cadeirydd Bwrdd newydd y Rhyl ac aelodaeth arfaethedig y Bwrdd.*

Ar y pwynt hwn (11.40am) cymerwyd egwyl am luniaeth.

## 7 HUNANASESIAD Y CYNGOR O’I BERFFORMIAD 2023 I 2024

Yn absenoldeb y Cynghorydd Gwyneth Ellis, cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau yr adroddiad a Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2023 i 2024 er mwyn i’r Cabinet eu hystyried cyn iddynt fynd gerbron y Cyngor. Roedd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad hefyd yn bresennol.

Roedd Hunanasesiad y Cyngor o’i Berfformiad yn darparu dadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau yn ôl amcanion perfformiad allweddol (h.y. themâu’r Cynllun Corfforaethol).

Arweiniodd y swyddogion yr aelodau drwy’r adroddiad oedd yn cynnwys Crynodeb Gweithredol (Atodiad I), yn tynnu sylw at berfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a’r saith maes llywodraethu; yr Adroddiad Diweddaru Perfformiad (Atodiad II) o fis Hydref at fis Mawrth 2024; camau gweithredu o’r Heriau Perfformiad Gwasanaeth (Atodiad III) a chwmpas drafft yr Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad IV). Roedd adborth eisoes wedi’i roi gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi iddynt ystyried yr adroddiad. Rhoddwyd trosolwg o’r cynnydd a wnaed ynghyd â’r heriau oedd o’n blaenau. Nodwyd fod yn rhaid ystyried perfformiad yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol a disgwylid i’r cyflawniad fod yn arafach o’r herwydd o bosibl. Tynnwyd sylw penodol hefyd at y chwe gweithgaredd gwella a nodwyd.

Diolchodd y Cabinet i’r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a’r gwaith caled.

Canolbwyntiodd y prif faterion trafod ar y canlynol -

- rhoddwyd disgrifiad manwl o bwrpas yr Asesiad Perfformiad Panel a’r disgwyliadau. Trafodwyd cwmpas drafft yr Asesiad a chafodd ei groesawu fel cyfle arall i asesu perfformiad o safbwynt gwahanol i arwain gwelliannau a

pherfformiad gwell yn y dyfodol. Roedd y meysydd pwyslais drafft yn cynnwys Arweinyddiaeth, Cynigion ar y Gyllideb/Trawsnewid a Gweithio mewn Partneriaeth. Bydd y Cabinet yn cael adroddiad arall ym mis Gorffennaf i gymeradwyo’r trefniadau.
- er ei bod yn bwysig cynnal uchelgeisiau’r Cyngor a pharhau i ymdrechu i wella, derbynnir bod llawer o faterion, o ran cyfyngiadau cyllidebol a’r economi ehangach, y tu hwnt i reolaeth y Cyngor
- cafodd y problemau gyda chyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd a’r effaith ar berfformiad, ynghyd â phroblemau eraill y tynnwyd sylw atynt yn y misoedd diwethaf eu codi fel pryder a hefyd yr effaith ar enw da’r awdurdod a’r thema o fod yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad. Roedd y prosiect gwastraff yn rhan o’r thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd yn y Cynllun Corfforaethol a byddai sylwadau am ei gyflwyno yn rhan o adroddiad perfformiad chwarter 2. Roedd pob awdurdod lleol yn wynebu heriau sylweddol i’r gyllideb ac roedd y gwaith yn canolbwyntio ar y rhaglen drawsnewid i gyflawni gwasanaethau. Roedd fframwaith rheoli perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys dangosyddion rheoli ariannol
- trafodwyd y thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad yn fanwl a nodwyd bod perfformiad yn un o saith maes llywodraethu yr oedd yn ofynnol i’r Cyngor eu hasesu ar gyfer iechyd corfforaethol da. Rhan o bwyslais y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol oedd meithrin dull “un Cyngor” o gefnogi’r naill a’r llall, gan weithio gyda’n gilydd i ymdrin â phroblemau’n agored a thryloyw, bod yn awdurdod dysgu, cydnabod perfformiad da a gwneud y gwelliannau angenrheidiol mor gyflym â phosibl mewn meysydd nad oedd yn perfformio cystal
- unwaith eto, cydnabu’r Arweinydd y problemau wrth gyflwyno’r gwasanaeth gwastraff newydd a rhoddodd sicrwydd eto bod pob ymdrech yn cael ei wneud i’w datrys
- ni chyfeiriwyd at achosion o dorri amodau cynllunio/gorfodaeth yn yr adroddiad perfformiad a chytunodd yr aelodau i godi’r mater gyda’r gwasanaeth perthnasol fel mesur posibl i’w gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol ac adrodd yn ôl ar y canlyniad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nesaf
- nod yr adroddiad oedd ystyried perfformiad y Cyngor mewn ffordd wrthrychol a phwyllog a chytunodd y Cabinet ei fod yn adroddiad gonest oedd yn canmol ac yn herio, a’i fod yn ddull hanfodol o sicrhau gwelliant.

Roedd y Cynghorydd Delyth Jones yn croesawu’r adroddiad fel ffordd werthfawr o werthuso perfformiad ynghyd â chyfyngiadau a heriau er mwyn symud ymlaen. Roedd hi’n credu bod Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad yn dod o’r arweinyddiaeth a ddangosir mewn cyfnodau anodd a diolchodd i’r Arweinydd a’r Prif Weithredwr am gydnabod y problemau gyda’r gwasanaeth gwastraff ac am gymryd camau pendant, clir i ymdrin â nhw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *nodi cynnwys yr adroddiad, gan gynnwys y chwe cham gwella a restrwyd ym mharagraff 4.4 yr adroddiad, ac yn*

*(b)* *cadarnhau cynnwys Hunanasesiad y Cyngor o’i Berfformiad 2023-2024 i’w gyflwyno i’r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 i’w gymeradwyo.*

## 8 ADRODDIAD CYLLID

Yn absenoldeb y Cynghorydd Gwyneth Ellis, cyflwynodd y Prif Gyfrifydd yr adroddiad ar sefyllfa refeniw derfynol 2023/24 a'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau, ac arweiniodd yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad.

Yn fyr, y sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys tanwariant heb ei ddirprwyo o £115mil gan ysgolion) yw gorwariant o £513mil. Ynghyd â diffyg bychan o £163mil yn Nhreth y Cyngor a gasglwyd, mae'n golygu bod £676mil o gronfeydd wrth gefn Lliniaru'r Gyllideb wedi'i ddefnyddio i ariannu'r gorwariant net. Bu i ysgolion orwario o £5.258m gan arwain at gyfanswm gorwariant y gyllideb o £5.934m. Nodwyd y trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn ac ohonynt, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhan o'r gyllideb neu wedi cael eu cymeradwy'n flaenorol. Yn olaf, cyfeiriwyd at gyllideb 2024/25, oedd yn broses barhaus ac roedd y gwaith yn parhau ar y cynigion ar gyfer arbed. Roedd risgiau'n gysylltiedig â rheoli cyllidebau a chyflawni arbedion bob amser ac roeddent yn cael eu monitro'n agos.

Dywedodd yr Arweinydd fod y pwysau sy'n wynebu'r Cyngor a'r amgylchiadau ariannol anodd wedi cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. Roedd wedi bod yn falch o weld llwyddiant y mesurau rheoli'r gyllideb a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn mewn rhai gwasanaethau a bod meysydd galw risg uchel fel Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i gael eu monitro'n agos. Yn olaf, pwysleisiodd yr Arweinydd mor bwysig oedd bod aelodau'n mynychu'r gweithdai cyllideb sydd yn yr arfaeth i sicrhau bod pawb yn rhan o'r broses honno yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2023/24; ac yn*

*(b) cymeradwyo sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023/24 fel y disgrifir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1 - 3.*

## 9 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.